TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# Ffotograffiaeth Analog Arbrofol



**Yn gryno**

Mae’r dosbarth hwn yn cynnig cyfle i arbrofi â thechnegau ffotograffiaeth cyn digidol. Mae wedi’i strwythuro i fynd â chi trwy nifer o agweddau gwahanol ar ffotograffiaeth analog gan roi cyfle i chi archwilio amgylchedd y stiwdio ac amgylchedd ystafell dywyll draddodiadol gan ddefnyddio ymarferion hanesyddol.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

Rydych chi’n greadigol ac mae gennych chi ddiddordeb mewn ffotograffiaeth analog. Hoffech chi gymryd lluniau heb gamera digidol – neu unrhyw gamera o gwbl.

**Cynnwys y cwrs**

Caiff y dosbarthiadau hyn eu strwythuro i fod yn greadigol, yn anffurfiol ac yn hwyl. Byddant wedi’u lleoli yn yr ystafell dywyll a’r stiwdio.

Cewch gyfle i roi haen o gemegau  cyanotype dros bapur a’u harddangos i olau i greu

delweddau.

Creu ffotogramau a chemigramau ac archwiliwch wneud marciau haniaethol mewn amgylchedd ystafell dywyll.

Adeiladu camera twll pin a'i ddefnyddio i dynnu lluniau yna argraffu'r negatifau yn ffotograffau.

Defnyddio camera fformat mawr ar gyfer ffotograffiaeth portreadau a bywyd llonydd yn y stiwdio ffotograffiaeth.

**Gofynion Mynediad**

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cwrs hwn.

Gwybodaeth ychwanegol:

Bydd angen gwisgo dillad addas ar gyfer gweithgareddau.

**Gwybodaeth Ychwanegol**